Gwaith ar gyfer disgyblion CA3

Cymraeg

TASGAU AR GYFER CA3 I GYD ~ Cwblhau ymarferion yn eu hunedau gramadeg a darllen nofelau Cymraeg.

Blwyddyn 7 ~ Cyfathrebu

Ysgrifennu araith yn mynegi barn ar dechnoleg (Asesiad Ysgrifennu Ffurfiol). Dylent ddewis un o'r testunau isod:

'Mae ffonau symudol yn boen yn ein cymdeithas.'

'Mae pobl ifanc yn gwylio gormod o deledu.'

'Mae'r we yn adnodd ardderchog! Oedolion sy'n poeni gormod.'

'Mae gemau cyfrifiadurol yn achosi gwrthdaro rhwng ffrindiau.'

Dylid dilyn y cyfarwyddiadau sydd yn eu hunedau gwaith wrth baratoi ar gyfer y dasg. Gellid ysgrifennu'r araith yn daclus yn eu llyfrau neu ei deipio a'i ddanfon at yr athro/athrawes.

Ar ôl ysgrifennu'r araith dylent ymarfer ei thraddodi fel paratoad ar gyfer yr asesiad Llafar (gallant ffilmio eu hunain yn ei thraddodi pe dymunent).

Blwyddyn 8 ~ Problemau Cymdeithasol

Ysgrifennu Llythyr Ffurfiol at Gyngor Caerdydd yn gofyn iddynt roi cymorth i'r digartref (Asesiad Ysgrifennu Ffurfiol). Dylid dilyn y cyfarwyddiadau sydd yn eu hunedau gwaith wrth baratoi ar gyfer y dasg. Gellid ysgrifennu'r llythyr yn daclus yn eu llyfrau neu ei deipio a'i ddanfon at yr athro/athrawes.

Blwyddyn 9 ~ Trychinebau

Ymchwilio i hanes trychineb Aberfan (gellid gwylio pennod 3 'The Crown' hefyd).

Ysgrifennu Erthygl Papur Newydd am drychineb Aberfan. Gellid ysgrifennu'r erthygl yn daclus yn eu llyfrau neu ei deipio a'i ddanfon at yr athro/athrawes.

Saesneg

Blwyddyn 7

Yn dilyn ein astudiaeth o genre, darllenwch lyfr mewn genre o'ch dewis chi (er enghraifft comedi, ditectif, ysbryd, antur) Gallwch ddefnyddio'r wefan yma i'ch helpu: https://www.lovereading4schools.co.uk/genre, denyddiwch y rhestr ddarllen genre ar dudalen Moddle Blwyddyn 7 yr Adran Saesneg, neu ewch i'ch llyfrgell leol er mwyn cael arweiniad wrth ddewis llyfr.
Tasg: Ysgrifennu adolygiad o'ch llyfr. Yna, ysgrifennwch bennod olaf gwahanol i'r llyfr hwnnw – gallech newid genre (er enghraifft rhoi diweddglo tylwyth teg i stori ysbryd)
Yn ogystal â hyn, gweithiwch ar eich geirfa: https://quizlet.com/gb/226114133/year-7-ambitious-vocabulary-flash-cards/

Blwyddyn 8

Mewn cyswllt â'n gwaith ar Holes, defnyddiwch y deunyddiau ffeithiol ar Moodle er mwyn darganfod gwybodaeth am y 'Wild West' a Texas.
Tasg: creu taflen am bethau yn yr ardal sydd o ddiddordeb i chi – the Gold Rush, Cowboys, NASA.
Hefyd parhewch i weithio ar eich geirfa: https://quizlet.com/gb/226492627/year-8-ambitious-vocabulary-flash-cards/
Estyniad: Darllenwch y daflen The Birth of an Outlaw. Ysgrifennwch adroddiad newyddion am Kissin' Kate, neu un o'r dihirod yn y darnau ffeithiol.

Blwyddyn 9

Mae'r newyddion a gwybodaeth yn bwnc trafod pwysig ar hyn o bryd. Rydym wedi uwch-lwytho'r gwersi yn gysylltiedig â newyddion ffug a newyddion dibynadwy (wedi'i gynhyrchu gan NewsWise) i Moodle. Gweithiwch eich ffordd drwy'r deunyddiau gan ddilyn yr hyperlinciau er mwyn edrych ar enghreiffitau.
Tasg: creu canllaw i ddisgybl Blwyddyn 6 ar 'Online news: what can you trust'. Gall hwn fod yn ganllaw ar bapur neu'n ddigidol.
Dylech chi hefyd fod yn medru sillafu ac egluro'r eirfa a geir yn y News Navigator (Theme 2)

Estyniad Blwyddyn 9

Yr uned nesaf fydd ysgrifennu naratif a dystopia. Gwyliwch y gyfres BBC newydd **Noughts and Crosses**. Ymchwiliwch i'r llyfr hwn gan Marjorie Blackman, a'r hyn sydd gan Stormzy i ddweud am y stori. Mae'n codi nifer o themau difrifol a sensitif a gallwch chi eu trafod gyda'ch teulu a ffrinidau.

Tasg: Adolygiad o'r gyfres a/neu'r llyfr

Neu, creu cyfres o gwestiynau ar gyfer panel drafod o'r fersiwn hwn o'r stori. Pe baech eisiau mynd â hwn ymhellach, gallech benderfynu pwy fyddech chi'n dewis i fod ar y panel drafod, ac hyd yn oed ysgrifennu script o'r hyn y byddai'r panel yn ei ddweud.

Mathemateg

Disgyblion i edrych ar wefan mathemateg.com. Ceir llwyth o ymarferion rhif, algebra, siap a data yn y Gymraeg a'r Saesneg fel bod rhieni'n gallu helpu. Dewiswch CA3 a blwyddyn eich plentyn.



Gellir hefyd edrych ar 'youtube' am fideos i helpu.

Gwyddoniaeth

Yn sgil effaith COVID-19 ar y gymdeithas, eich tasg yw darganfod mwy o wybodaeth am ficro-organebau. Amcanion yr ymchwil yw:

1. Dylunio diagram, wedi'u labelu, o gell bacteriol, cell ffwngaidd, cell algâu a firws. Dylai'r labelu cynnwys y canlynol lle yn berthnasol – cell bilen, cell fur, cytoplasm, cloroplast, cnewyllyn, cot protein, deunydd genetig.

Ymestyn: Gallwch greu model 3D o gell ficrobaidd os hoffech.

2. Darganfod ystyr y term 'pathogen' a darganfod un enghraifft o facteriwm, ffwng a firws sy'n pathogenaidd. Crëwch bamffled yn crynhoi symptomau'r haint, sut mae'r haint yn lledaenu a triniaethau posib ar gyfer yr haint.

3. Ymchwil i'r ffactorau sy'n angenrheidiol ar gyfer twf bacteria – beth yw dysgl Petri ac agar meithrin? Pa dymheredd sydd fwyaf addas ar gyfer twf a pham? Sut mae bacteria yn atgenhedlu? Beth yw ystyr y term 'gwrthfiotig? Beth oedd enw'r gwyddonydd gwnaeth ddarganfod rhain?

4. Sut mae micro-organebau yn ddefnyddiol i ni? Darganfyddwch defnydd burum a bacteria yn y diwydiant bwyd a chrynhowch y wybodaeth ar ffurf diagram llif.

5. Sut mae esblygiad yn newid firws y ffliw yn newid yn flynyddol? Beth yw brechlyn? Pam oes rhaid derbyn brechlyn newydd yn erbyn y ffliw pob blwyddyn?

Disgwylir i flwyddyn 7 cwblhau tasg 1 a 2, blwyddyn 8 tasgau 1,2 a 3 tra bod pob tasg yn addas ar gyfer blwyddyn 9. Er hynny, mae croeso i unrhyw ddisgybl roi cynnig ar yr holl dasgau.

Gwefannau defnyddiol:
https://microbiologyonline.org/students/resources-1
https://www.bbc.co.uk/programmes/b007753d
https://adnoddau.cbac.co.uk/Pages/ResourceSingle.aspx?rIid=2319
https://www.youtube.com/watch?v=JgZwA-39Dj4

Daearyddiaeth

Tasg blwyddyn 7

Byddwn yn astudio pam fod hyd oes (life expectancy) yn amrywio o gwmpas Caerdydd.

Ymchwiliwch i'r hyn sydd yn effeithio hyd oes rhywun.

Lluniwch daflen wybodaeth neu hysbyseb deledu yn amlinellu yr hyn gall pobl wneud er mwyn cynyddu eu hyd oes.

Tasg blwyddyn 8

Byddwn yn astudio sut mae trosedd (crime) yn amrywio o gwmpas Caerdydd.

Defnyddiwch gwefan www.police.uk er mwyn ymchwilio i batrymau.

Lluniwch daflen wybodaeth neu hysbyseb deledu yn tynnu sylw pobl at sut i amddiffyn eu hunain rhag dioddef o drosedd yn eu herbyn.

Tasg blwyddyn 9

Rydym wedi bod yn edrych ar y niwed gall digwyddiadau tectonig ei greu.

Ymchwiliwch i'r hyn a wneir mewn gwahanol wledydd yn y byd er mwyn lleihau peryglon daeargrynfeydd, tsunamis a llosgfynyddoedd. Mae erthygl yn eich uned i'ch helpu.

Lluniwch daflen wybodaeth neu hysbyseb deledu yn crynhoi yr hyn a wneir ar draws y byd.

Hanes

Blwyddyn 7

- Cwblhau unrhyw waith mae'r athro wedi gosod fel gwaith cartref yn barod
- Ymchwilio i fywyd y bocsiwr enwog, Jim Driscoll. Ymhle cafodd ei eni, beth oedd ei gefndir, pam ei fod yn enwog yng Nghaerdydd, ei farwolaeth a'i angladd. Creu ffeil-o-ffeithiau gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r gwaith ymchwil. Adnoddau: www.en.wikipedia.org/wiki/Jim_Driscoll
- Ymchwilio i Gapten Scott yn teithio o Gaerdydd i'r Antartic. Map meddwl ar gyfer y dasg yma. Adnoddau: www.bbc.co.uk/history/historic_figures/scott_of_antarctic.shtml

Blwyddyn 8

- Cwblhau unrhyw waith mae'r athro wedi gosod fel gwaith cartref yn barod
- Gwaith ymchwil ar Mari Brenhines y Sgotiaid – creu un ochr o nodiadau yn eich llyfr Hanes. Ymhle cafodd ei geni, beth oedd ei chefndir, perthynas gyda Elizabeth I, cynllwynio yn erbyn Elizabeth I a'i dienyddiad. Creu ffeil-o-ffeithiau gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r gwaith ymchwil.
- Os ydych wedi gorffen fe hoffwn ffeil-o ffeithau hefyd am yr Armada Sbaenaidd 1588
- https://www.biography.com/royalty/mary-queen-of-scots

Blwyddyn 9

- Cwblhau unrhyw waith mae'r athro wedi gosod fel gwaith cartref yn barod
- Gwaith ymchwil ar fewnfduo i UDA yn y 1920'au. Themau yn cynnwys – Drws Agored, Bywyd ar Ynys Ellis, Deddfau Mewnfudo, Cyfyngu ar fewnfudo, Y Braw Coch. Defnyddiwch y wefan Bitesize i'ch helpu gyda'r gwaith yma.
- www.bbc.co.uk/bitesize/topics/z387dxs

Addysg Grefyddol

Blwyddyn 7

Dysgwyr i greu adnodd (e.e. poster, pamffled, ffilm) yn addysgu eraill am grefydd yng Nghaerdydd / yng Nghymru. Gellir cyfeirio at ystadegau'r cyfrifiad, mannau addoli, gwyliau crefyddol.

Blwyddyn 8

Ysgrifennwch erthygl papur newyddion ar ŵyl grefyddol o'ch dewis (e.e. Nadolig, Eid, Pasg, Hanukkah). Angen cyfeirio at bwrpas yr ŵyl, arferion yr ŵyl a'r effaith ar fywydau credinwyr.

Blwyddyn 9

Dewiswch unrhyw opera sebon neu gyfres a gwyliwch bennod.

1. Rhestrwch unrhyw gymeriadau sy'n cael eu dangos fel rhai crefyddol (e.e. Cristion, Mwslim, Sic, Hindŵ)
2. Bob tro y bydd cyfeiriad at fater crefyddol neu foesol (e.e. hiliaeth, cydraddoldeb, priodas, dathlu gŵyl crefyddol), nodwch ar ddarn o bapur.
3. Yn eich barn chi, a yw'r cymeriad / cymeriadau crefyddol yn cael ei bortreadu'n deg?

Drama

- Ysgrifennwch sgript sy'n cyflwyno'r sefyllfa yma…

  Mae rhiant wedi darganfod sebon o dan gwely eu plentyn. Mae sebon bellach yn anghyfreithlon (illegal) a gall y sawl sy'n cael eu dal mewn perchnogaeth o sebon fynd i'r carchar ond yn waeth na hyn gall ddefnyddio gormod ohono achosi i bethau rhyfedd iawn ddigwydd i'ch dwylo chi

  Pethau i'w hystyried.

  Beth fyddai'r rhiant yn ddweud? Sut bydden nhw'n ei ddweud e? Bydd y plentyn yn rhoi'r bai ar rhywun arall? A fydd y rhieni yn gadael I'r plentyn ddefnyddio'r sebon? A fydden nhw'n gorychwylio? Beth sy'n digwydd I ddwylo'r defnyddiwr? Ceisiwch ddefnyddio cyfarwyddiadau llwyfan, mewn cromfachau, fel bod y perfformiwr yn gwybod sut i ddweud y llinellau yn ogystal a sut i symud.

- Cynlluniwch wisg i'r cymeriadau.
  Pethau i'w ystyried.
  Beth yw'r wisg? Beth yw'r lliwiau yn y wisg? Pam? (Er mwyn dangos…)
  Labelwch y lluniau I ddweud beth yw'r ddelwedd a pam eich bod chi wedi gwneud y dewisiadau hyn.
- Crëwch 'Moodboard' ar gyfer eich set ar gyfer y sgript yr ydych chi wedi ei greu. Mae moodboard fel Pinterest. Rhowch luniau sy'n dangos y math o beth fyddai ar y llwyfan er mwyn creu lleoliad benodol.
- **TASG BLWYDDYN 9 YN UNIG** - Ceisiwch esbonio eich dewisiadau e.e. Gallwch ddweud "Mae'r olygfa yn Gegin y teulu/ystafell fyw/ Ystafell wely … Byddwn yn hoffi bod Oergell Americanaidd er mwyn dangos… "
- Nodwch pa actorion byddai'n actio'r cymeriadau. Yna esboniwch pam eich bod chi'n eu hoffi nhw. Crëwch broffil ar gyfer pob actor.

Cerddoriaeth

Blwyddyn 7:
Dewis darn o'u dewis a'i werthuso. Cynnwys y canlynol yn y gwerthusiad:

1. Hanes a chefndir y artist / band / cerddor
2. Manylion am y darn ei hun - dyddiad cyfansoddi / perfformiad cyntaf ayb
3. Trafod Elfennau Cerddorol y darn: Arddull / Offerynnau / Llais / Dynameg / Tempo / Gwead / Traw / Cywair / Arwydd Amser

Blwyddyn 8:
Dewis darn gan fand / cyfansoddwr Cymraeg neu Reggae a'i werthuso. Cynnwys y canlynol yn y gwerthusiad:

1. Hanes a chefndir y artist / band / cerddor
2. Manylion am y darn ei hun - dyddiad cyfansoddi / perfformiad cyntaf ayb
3. Trafod Elfennau Cerddorol y darn: Arddull / Offerynnau / Llais / Dynameg / Tempo / Gwead / Traw / Cywair / Arwydd Amser

Blwyddyn 9:
Dewis darn Ffilm o'u dewis a'i werthuso. Cynnwys y canlynol yn y gwerthusiad:

1. Hanes a chefndir y artist / band / cerddor
2. Manylion am y darn ei hun - dyddiad cyfansoddi / perfformiad cyntaf ayb
3. Trafod Elfennau Cerddorol y darn: Arddull / Offerynnau / Llais / Dynameg / Tempo / Gwead / Traw / Cywair / Arwydd Amser

Pawb:
Os oes offerynnau gyda chi adref, parhau i ymarfer eich darnau neu mynd ar y wê i ddysgu darnau newydd.(e.e Youtube)
Beth am ddechrau arbrofi hefyd gyda syniadau ar gyfer cyfansoddiad eich hun?
Plis ebostiwch unrhyw berfformiadau neu gyfansoddiadau i ni - byddwn wrth ein boddau yn gwrando ar eich gwaith!

Bydd Mrs Evans a Mr Lake hefyd yn ebostio chi fel dosbarthiadau gyda mwy o dasgau os oes angen.

Technoleg Gwybodaeth

Mae Popeth Ca3 mae'r adran yn gwneud wedi gosod ar Moodle.

Moodle > TGCh > CA3 > BL7-9

Dyle **Blwyddyn 7** fod yn gweithio ar uned Excel, ond hapus iddynt barhau a COde.Org os yw hwnna haws i'w chwblhau heb help athro.

Blwyddyn 8 : Gwaith scratch, fideos ar moodle BL8> Scratch, prif dasgau i'w chwblhau Frogger a Sharks n Fishes. Gall y plant cwblhau'r codio trwy ddefnyddio Scratch online, cod yn cael ei arbed os ydynt yn creu cyfrif i'r wefan/ opsiwn arall a chymryd llun o'i chod os oes problemau arbed.

Dyma’r codiau fesul dosbarth cofrestru er mwyn cael mynediad i Code.org
8P - VZXMBL
8L - FPWMBL
8A - TMVCWC
8S - HRJSQJ
8M - GJGTNZ
8W - QBNMCV

Blwyddyn 9 : Creu dogfen Sway neu Gyflwyniad PowerPoint ar ei busnes o ddewis.

Ffrangeg (Blwyddyn 7 a 9 yn unig)

Blwyddyn 7

Tasg Ysgrifennu - creu poster yn Ffrangeg yn cynnwys gwybodaeth am eu hunain

Tasgau Dysgu / Geirfa:
*** Linguascope.com**
username: plasmawr password: gofynnwch i'r athro
Mynd i Ffrangeg / Beginner a dewis unrhyw destun

*** Quizlet** (angen creu cyfrif unigol):
Chwilio o dan 'Blwyddyn 7 Plasmawr Ffrangeg'

*** Memrise** (angen creu cyfrif unigol):

Cyrsiau posib i'w hastudio:
100 most used spoken words
Introductory French vocab
French 1

Blwyddyn 9

Tasg: creu pamffled yn Ffrangeg am Gaerdydd (beth sydd yna o ran adeiladau/ cyfleusterau a thrafnidiaeth)

Tasgau Dysgu / Geirfa:
*** Linguascope.com**
username: plasmawr password: gofynnwch i'r athro
Mynd i Ffrangeg / Beginner (neu Intermediate) a dewis unrhyw destun.

*** Quizlet** (angen creu cyfrif unigol):
Chwilio o dan 'Blwyddyn 9 Ffrangeg Plasmawr'

*** Memrise** (angen creu cyfrif unigol):

Cyrsiau posib i'w hastudio:
100 most used spoken words
Introductory French vocab
French 1
French GCSE Vocabulary (WJEC)

Sbaeneg (Blwyddyn 8 a 9 yn unig)

Blwyddyn 8:
Ysgrifennu llythyr yn sôn am eu hunain

Blwyddyn 8 a 9:
Quizlet, Linguascope (login: plasmawr, password: gofynnwch yr athro), Memrise (PlasmawrSbaenegCA3)

Addysg Gorfforol

Yn ystod ein amser i ffwrdd o'r ysgol, mae angen i ni barhau i wneud ymarfer corff fel bod ein corff ni'n aros yn iach ac yn gryf. Gallwch fynd i loncian, cicio pêl yn yr ardd gefn neu wneud gweithgaredd yn y tŷ. Dewisiwch 1 WOD y diwrnod i wneud, 5 diwrnod yr wythnos.

WOD 1

- 19 Byrpi
- 19 gwrthwasgiad
- 19 naid seren ffrwydrol
- 19 eisteddiad
- **AIL ADRODD 3 GWAITH**

WOD 2

- 19 dringo mynydd
- 19 naid sgwot
- 19 'fyny a lawr'
- 19 twist Rwsia
- **AIL ADRODD 3 GWAITH**

WOD 3

- Byrpi, naid sgwot, naid seren a gwrthwasgiad
- Gwneud pob un 28 gwaith
- Gwneud pob un 21 gwaith
- Gwneud pob un 14 gwaith
- Gwneud pob un 7 gwaith

WOD 4

- Neidio mewn ac allan (traed gyda'i gilydd ac yno ar wahan)
- Dringo'r mynydd
- Naid seren
- Planc
- Gwneud pob un 60 gwaith
- Gwneud pob un 40 gwaith
- Gwneud pob un 20 gwaith
- Gwneud pob un 10 gwaith

Celf

Blwyddyn 7

Hunan BORTREAD! 2 x ddarn o waith!

1. Torri llun o'ch hunain **mewn hanner** a dylunio yr hanner arall yn ofalus gan gyfeirio at y **mesuriadau, cysgodi golau/tywyll,** ymarferion blaenorol.
Gall hyn fod mewn **pensil llwyd** neu mewn **lliw.**

2. Gan ddefnyddio y grid mesur i'ch atgoffa o fesuriadau yr wyneb dyluniwch hunan bortread. Dylech eistedd o flaen drych i arsylwi'ch hunain yn ofalus! Edrychwch am y **cysgodion a'r manylion.** Eto cofiwch **ddilyn y camau o sut i ddylunio llygaid, trwyn a ceg er mwyn sicrhau darn o waith o safon!**

Dylech dreulio cryn dipyn o amser ar hyn, mae modd gweithio mewn camau dros gyfnodau gwahanol.

Wedi gorffen ac wedi diflasu? Ymchwilia fewn i waith celf POP! Pwy? Pryd? Ble? Pam? Barn ti? Beth am drio dylunio mewn steil Celf POP? Der a dy waith ymchwil i fewn wrth ddychwelydi'r ysgol.

Blwyddyn 8

1. Ymchwilio labeli diodydd iachus ar y wê a chasglu engrheifftiau mewn Pwerbwynt i'w hargraffu pan mae modd boed gartref neu pan yn dychwelyd i'r ysgol.
2. Ymchwilio ffontiau newydd ar gyfer eu cynnyrch SYCHED
3. Datblygu Logo ar gyfer eu cynnyrch gan edrych nol dros eu gwaith celf bywyd llonydd.
4. Creu label x4 fel prototype ar gyfer eu cynnyrch nhw.

Popeth i'w cyflawni yn eu braslyfrau

Blwyddyn 9

1. Parhau i ddatblygu eu syniadau prosiect unigol yn eu llyfrau. Byddwch yn greadigol. Defnyddiwch PINTREST fel ysbrydoliaeth o dudalennau llyfrau braslunio.
2. Tynnwch luniau ar eich ffôn o natur, gwrthyrchau ac atreffactau sydd o'ch amgylch. Edrychwch ar gyfansoddiad eich lluniau. Sut i wella? Brasluniwch a chopïwch rhain yn eich llyfr neu ar bapur.
3. Cerflunio tu allan. Edrychwch ar waith Celf ANDY GOLDSWORTHY a ble yn bosib crëwch ddarn o waith Celf yn defnyddio Natur. Tynnwch lun ar eich ffôn. Dilynnwch Stiwdio Celf ar Instagram (nawn ni ddim dilyn chi nôl) **Stiwdio_S**
4. Ebostiwch luniau o'ch gwaith i'ch athro

BYDD ANGEN GWIRIO EDULINK YN RHEOLAIDD AM RAGOR O DASGAU!

Technoleg Bwyd

Blwyddyn 7
Ymchwiliwch a dyluniwch fwydlen 3 chwrs ar gyfer Bwyty newydd sydd yn agor ynghanol y dref. Ar gyfer pob pryd o fwyd, rhaid i chi enwi'r offer bydd eu hangen arnoch i'w creu.

Blwyddyn 8
Ymchwiliwch a dyluniwch bamffled i helpu staff y gegin ysgol i gofio'r rheolau hylendid a diogelwch. Rhaid enwi o leiaf 6 rheol hylendid gydag esboniadau. Cynnwys lliw, lluniau a llythrennu effeithiol gydag esboniad a pham mae'n bwysig dilyn y rheolau yma.

Blwyddyn 9
Ymchwiliwch i'r maetholion mae angen ar blant ac wedyn dyluniwch bamffled ar gyfer rhieni ar sut i fwyta'n iach i blentyn. Ceisiwch gynnwys ac esbonio'r geiriau pwysig yma: 5-y-dydd, halen, braster, pysgod, ffibr, ffrwythau, llysiau, calsiwm. Cofiwch ddefnyddio lluniau a llythrennu effeithiol gydag esboniad am bob gair pwysig.

Tasg estynedig i flynyddoedd 7, 8 ac 9 yw i ddylunio ac ymarfer pobi saig a fyddai'n addas i'r gystadleuaeth isod:

Technoleg – Tecstiliau

Blwyddyn 7/8 Tecstilau

Tasg 1
Ymchwiliwch mewn i un o'r dylunwyr isod a chreu tudalen A4 i gyflwyno
· Orla Kiely
· Matthew Williamson

Tasg 2
Dyluniwch fag gan ddefnyddio gwaith y dylunwyr fel ysbrydoliaeth